Papur Bro Abertawe

# WILIA

RHIFYN 484 MEHEFIN 2026 | AM DDIM

## DWY O ABERTAWE YN YR ORSEDD

Mae dwy o Abertawe wedi eu dewis i'r orsedd yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni:



GWISG LAS

Mae Jaci Gruffudd, Abertawe, wedi treulio dros bum degawd yn gwasanaethu'r Gymraeg yn Abertawe trwy arwain, gwirfoddoli a chefnogi mudiadau allweddol megis Mudiad Ysgolion Meithrin, Tŷ Tawe, Menter Iaith Abertawe a Merched y Wawr. Bu'n allweddol yn sefydlu a chryfhau addysg Gymraeg yn lleol fel Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gymraeg y Cwm, ac yn hyrwyddo'r Gymraeg y tu hwnt i fudiadau iaith. Yn wreiddiol o Essex, fe ddysgodd ein hiaith ac ymroi'n llwyr i gymuned a diwylliant, gan sicrhau croeso cynhwysol i bawb.



GWISG WERDD

Mae Elin Meek, Abertawe, yn awdur, cyfieithydd ac addasydd toreithiog sydd wedi gosod y Gymraeg wrth wraidd ei bywyd a'i gwaith. Gyda thros 200 o gyfrolau gwreiddiol ac addasiadau, mae wedi meithrin cariad at ddarllen Cymraeg ymhlith plant, dysgwyr a theuluoedd di-Gymraeg, gan ddefnyddio testunau cyfarwydd â blas Cymreig arnynt. Gwnaeth gyfraniad cenedlaethol sylweddol i safonau iaith drwy fframweithiau ac arholiadau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Yn lleol, mae'n wirfoddolwr ymroddedig ac yn mwynhau cynganeddu, gan gryfhau llenyddiaeth a bywyd diwylliannol Cymru.

# NEWYDDION CYMDEITHAS GYMRAEG TREFORYS -DAVID GWYN JOHN



Roedd ein cyfarfod ym mis Mai yng ngofal yr aelodau. Cafwyd cyfraniadau gan y llywydd Aldyth Williams, aelodau Betsan Rosser a Susan Hughes ar y thema "Mae gen i Drysor."

Dangosodd Aldyth un o drysorau'r teulu, y dyddiadur a chadwyd gan ei thadcu, David John Williams, a deithiodd i Dde Affrica yn 1917 yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Am resymau meddygol fe'i gynhorwyd ef i symud i fyw yn Ne Affrica ac elwa o'i awyr sych. Tipyn o antur ar y gorau i fachgen ifanc ond siwrnai beryglus gyda llongau tanfor yr Almaenwyr yn prowio'r moroedd. Yn wir, yn nyddiau cynnar y daith fe gofnododd David John ymdrech lwyddianus i achub morwyr o long arall a ddrylliwyd gan dorpedo oddi ar arfordir Cernyw. Rhai diwrnodau wedyn fe drawyd ei long ef gan dorpedo. Defnyddiwyd y badau achub a suddodd y llong. Achubwyd ef gan long oedd yn teithio i Efrog Newydd ac yno y bu am gyfnod cyn deithio ymlaen i Dde Affrica. Ymhlith y dogfennau a ddangoswyd gan Aldyth oedd pasbort David John gyda'r staen a achoswyd gan ddŵr y môr. Dychwelodd David John i Dreforys ar ôl cyfnod o weithio yn Ne Affrica, gan elwa o'r adferiad iechyd a gafodd yn Ne Affrica.

Casgliad o sampleri oedd gan Betsan. Rhyfeddwyd at y gwaith cywrain a gyflawnwyd gan y merched ifainc a'u creodd yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Eglurodd Betsan ychydig o hanes y sampleri a oedd yn cynnwys enghraifft prin yn Gymraeg o "Gweddi'r Arglwydd."

Roedd y diweddar Edgar Hughson yn frodor o Gwm Tawe ac yn organydd ac arweinydd y gân yn y Tabernacl Treforys o 1919 tan 1966. Dan arweiniad Mr Hughson cyflwynodd Gôr y Tabernacl oratorio yn flynyddol. Arweiniodd Gymanfaoedd Canu ar draws y wlad, yn ogystal ag arwain operau yn Ystradgynlais. Trysor Susan oedd y baton a ddefnyddiwyd gan Edgar ei hun. Cyfrannodd Edgar Hughson yn helaeth at fywyd gerddorol, crefyddol a Chymreig y cwm. Cofnodir yr hanes gan Trebor Lloyd Evans yn ei lyfr 'Y Cathedral Anghydffurfiol Cymraeg' (Gwasg John Penri 1972).

Defnyddiwyd un o'n trysorau pennaf, sef yr iaith Gymraeg, i gyflwyno'r noson a nodwyd y dyletswydd sydd arnom i gadw tafodiaith Cwm Tawe yn fyw. Cyfeiriwyd at ddefnydd gan Neil Rosser o'n tafodiaith yn ei ganeuon ac yn ei nofel diweddar "Wythnos Ryfedd Gwilym Puw." Darllenwyd detholiad o'r nofel a swynwyd pawb gan recordiad o "Tecel" Abiah Roderick gan Hogiau'r Wyddfa.

Noson ddiddorol dros ben a chafwyd mwy nag un cais i gynnwys noson debyg yn y dyfodol.

Cynhelir ein cyfarfod nesaf am 7.00.y.h. yn Festri Seion Newydd nos Iau Mehefin 18fed. Ein gwestai yw'r gerddorwraig amryddawn Angharad Jenkins a fu am 15 mlynedd yn aelod o'r grwp gwerin enwog " Mabon."Yn fam i ddau o blant erbyn hyn mae ganddi ddiddordeb mewn hen hwiangerddi a chreu ychwanegiadau newydd. Edrychwn ymlaen at noson ddifyr.

## GWOBRAU CYMRAEG ABERTAWE




Mae Abertawe wedi cynnal ei gwobrau Cymraeg cyntaf erioed i ddathlu rhagoriaeth y Gymraeg ar draws y ddinas.
Cynhaliwyd Gwobrau Tlws Tawe yn gynharach y mis hwn i gydnabod lleoliadau'r blynyddoedd cynnar rhagorol, prosiectau ysgol ysbrydoledig, staff a gwirfoddolwyr ysgol ymroddedig, busnesau lleol a llwyddiant ysgubol y Siarter Iaith.
Ymgasglodd yr enwebeion yng Nghanolfan Celfyddydau Taliesin ar gyfer y seremoni a drefnwyd gan Gyngor Abertawe ac a gefnogwyd gan bartneriaid Cymraeg.
Meddai Cyfarwyddwr Addysg y Cyngor, Helen Morgan-Rees, "Mae Abertawe'n ymrwymedig i ddathlu a hyrwyddo'r Gymraeg yn ein hysgolion a'n cymunedau ac roeddem yn falch iawn o gynnal y gwobrau hyn yr ydym yn gobeithio y byddant yn dod yn ddigwyddiad blynyddol.

"Roedd yn gyfle i gydnabod gwaith gwirioneddol ysbrydoledig sy'n hyrwyddo'r Gymraeg yn ein cymunedau a chael cyfle i ddathlu ymgyrch Cymraeg i Bawb yn Abertawe.
"Unwaith eto, hoffwn longyfarch yr holl enwebeion a'r enillwyr a diolch iddynt am y rhan maen nhw'n ei chwarae wrth gefnogi'r brwdfrydedd a'r cyffro am yr iaith yn Abertawe."

## NIFER UCHAF ERIOED YN DYSGU CYMRAEG -ANEST ROBERTS

Oeddech chi'n gwybod bod dros 20,000 o bobl bellach yn dysgu Cymraeg?
Yn ôl data newydd a gyhoeddwyd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol fis Mawrth, cwblhaodd 20,445 o unigolion gyrsiau'r Ganolfan yn ystod 2024-2025 – y nifer uchaf erioed, a chynnydd o 61% ers y cyhoeddiad data cyntaf yn 2017-2018.
Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol sy'n arwain ar y sector Dysgu Cymraeg, a'i phrif nod yw creu siaradwyr Cymraeg sy'n mwynhau defnyddio'r iaith



## LLWYDDIANT GORNEST LYFRAU YSGOL GYMRAEG Y CWM -CATRIN PRYCE

Llongyfarchiadau enfawr i dím Gornest Lyfrau Blwyddyn 5 a 6 Ysgol Gymraeg y Cwm am ennill y rownd sirol Abertawe. Byddant yn mynd ymlaen i gynrychioli'r sir yng nghystadleuaeth Cymru gyfan yn Aberystwyth ym mis Mehefin. Dyma'r ddolen i'r hysbyseb â gynhyrchwyd ganddynt i hyrwyddo'r nofel 'Gerwyn Gwrthod a'r Llyfr Does Neb yn Cael ei Ddarllen'.



# NEWYDDION YSGOL GYFUN GYMRAEG BRYN TAWE

## EISTEDDFOD NEDD - MEINIR JONES, PENNAETH YR ADRAN GYMRAEG

Cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn i Ysgol Bryn Tawe yn Eisteddfod Nedd.

Enillodd Olivia Williams y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth Unawd Sioe Gerdd i Ysgolion Uwchradd gyda Grace Wheatley yn 3ydd. Hyfryd oedd gweld 8 o ddisgyblion yr ysgol yn cystadlu yn y rhagbrawf. Llongyfarchiadau i Olivia hefyd am ennill y wobr am y perfformiwr mwyaf addawol yn y cystadlaethau uwchradd.

Da iawn i Llywelyn Gannon am ennill yr ail wobr yn yr unawd offerynnol uwchradd ac i'r ddau arall a ymddangosodd yn y rhagbrawf.

Hari James oedd yn fuddugol yn y llefaru uwchradd a daeth Olivia Williams, Poppy Vaughan a Skye Morris yn ail yn yr ensemble lleisiol.

Enillodd y Côr Cerdd Dant yr ail wobr yn y gystadleuaeth oedran agored a'r Grŵp clocsio yn ennill yr ail wobr yn y gystadleuaeth dawnsio i ysgolion Uwchradd,

Cafodd Parti Llefaru hŷn Bryn Tawe yr ail wobr yn y gystadleuaeth 'Cyflwyniad Creadigol' gyda'r Parti Llefaru iau ac ymgom yr ysgol yn rhannu'r drydedd wobr.

Llongyfarchiadau hefyd i'r Côr Gwerin am gael y drydedd wobr yn y gystadleuaeth agored a'r Côr yn ennill y drydedd wobr yn y categori uwchradd.

Daeth llwyddiant hefyd gyda'r gwaith llenyddol gydag Aled Owen yn ennill y drydedd wobr yng nghategori Bl.7 i 9, Fanw Watson yn ennill yn y categori Bl.10 i 13 a Kitty Walton yn drydydd yn yr un categori.

Gwledd o gystadlu amrywiol! Diolch yn fawr i ddisgyblion yr ysgol am gyfrannu at lwyddiant yr Eisteddfod a diolch hefyd i drefnwyr Eisteddfod Nedd am ddiwrnod i'w gofio!






## HER SEFYDLIAD MORGAN - MEINIR JONES, PENNAETH YR ADRAN GYMRAEG

Da iawn i Rhys a Ioan o Ysgol Bryn Tawe am gystadlu yn Her Sefydliad Morgan eleni o dan ofal Academi Hywel Teifi, Prifysgol Abertawe. Roedd tîm o Ysgolion Bro Morgannwg, Glan Clwyd a Bryn Tawe wedi cyrraedd y rownd derfynol ar faes Eisteddfod yr Urdd yn Ynys Môn. Y dasg oedd areithio o blaid neu yn erbyn cynnig gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn rhagweithiol o fewn y Gwasanaeth Iechyd. Llongyfarchiadau mawr i Ioan ar ennill gwobr am fod y siaradwr gorau o blaid yn y gystadleuaeth, ac yn wir, am ennill yr her gyfan. Diolch eto i Academi Hywel Teifi am drefnu'r gystadleuaeth



## SGWAD 16 OLAF CYMRU - CATRIN LYALL, IS BENNAETH Y CHWECHED

Llongyfarchiadau i Kitty Walton ar gael ei derbyn i sgwad Cymru ar gyfer Pencampwriaeth Ewrop rygbi cyffwrdd dan 20. Bydd yn cynrychioli Cymru yn Warwick ym mis Awst. Arbennig!



## YSGOLORIAETHAU
## -CATRIN LYALL, IS BENNAETH Y CHWECHED

Llongyfarchiadau i Courtney Braun, Lowri Kapias, Kitty Walton ac Elen Williams ar ennill ysgoloriaethau yn ddiweddar. Mae Courtney wedi ennill ysgoloriaeth i astudio yn Mangor ac Ysgoloriaeth Meddygaeth y Coleg Cymraeg. Enillodd Kitty ac Elen ysgoloriaethau i astudio ym mhrifysgolAberystwyth, ac enillodd Lowri brif ysgoloriaeth y Coleg Cymraeg. Arbennig ferched!







## CÔR CENEDLAETHOL A THEATR GENEDLAETHOL
## -CATRIN LYALL, IS BENNAETH Y CHWECHED

Llongyfarchiadau mawr i Maiwenn Watson ac Ifan Saunders ar gael eu derbyn i'r Côr Cenedlaethol ac i Maiwenn ar gael ei derbyn I'r Theatr Genedlaethol hefyd. Mae haf prysur o flaen y ddau!




## PRENTISIAETHAU
## -CATRIN LYALL, IS BENNAETH Y CHWECHED

Llongyfarchiadau mawr i Evan Dalton a Lewis Rowlands ar ennill prentisiaethau yn ddiweddar. Bydd Evan yn symud i Milton Keynes yn dilyn ennill prentisiaeth gyda Red Bull Powertrains. Ymgeisiodd 400 ac mae Evan yn un o 2 sydd wedi derbyn presntisiaeth technegydd. Mae Lewis wedi prentisiaeth fel syrfewr meintiau gyda BAM Nuttall. Gwych fechgyn!





Diolch yn fawr i'n cyfranwyr ar gyfer rhifyn Mehefin.
Menter Iaith Abertawe sydd yn coladu straeon Wilia. Plîs danfonwch unrhyw beth a allai fod o ddiddordeb i'n darllenwyr ar gyfer rhifyn Gorffennaf erbyn Mehefin 30ain trwy ebostio Anys at:
**datblygu@menterabertawe.org**
Neu anfonwch eich lluniau/straeon at dudalen Facebook Wilia.

CYMRAEG Dysgu Learn
Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

NAWR

TŶ TAWE, ABERTAWE · 26.06.26



# dewin

## louis o'hara
## y pregethwr